

CYNLLUN GWEITHREDU GWARTH-HILIAETH

Hydref 2020

	CAMAU A GODWYD (ALINIAD Â'R CYNLLUN GWEITHREDU CYDRADDOLDEB)	DYDDIAD TERFYN	ATEBOLRWYDD
	CEFNOGI AC YMGYSYLLTU Â MYFYRWYR, CYNULLEIDFAOEDD A CHYMUNEDAU		
1	Cynnull grŵp ffocws i ystyried materion hil fel rhan o ymgynghoriad Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Coleg	Medi 2020	BW/ML
2	Aelodaeth o/ymgysylltiad â sefydliadau blaenllaw y sector	Medi 2020	Uwch Dîm Rheoli
3	Rhwydwaith cefnogi i fyfyrwyr ar draws nodweddion gwarchoddedig (Cam Gweithredu CGC 3.3) gan gynnwys drwy'r systemau tiwtorial sydd ar waith ar gyfer gwahanol raglenni	Medi 2020	BW
4	Ehangu'r gwasanaeth cwnsela er mwyn cynyddu'r ystod o arbenigeddau (Cam Gweithredu CGC 3.3)	Medi 2020	BW
5	Cynyddu cronfa caledi myfyrwyr gan 300% i gryfhau gallu'r Coleg i leihau anghydraddoldebau ariannol sy'n effeithio'n sylweddol ar allu unrhyw fyfyrwr i gymryd rhan yn eu rhaglen astudio (Cam Gweithredu CGC 3.4)	Medi 2020	LS/MW
	ARFER CREADIGOL		
6	Penodiadau staff wedi'u gwneud	Medi 2020	SC/TRE
7	Datganiad 'Gofod Parchus' CBCDC	Medi 2020	HG/BW/KSD
	DATBLYGU STRWYTHURAU A HYFFORDDIANT		
8	Diwygio system cwynion myfyrwyr yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd yn 2019/20 (Cam Gweithredu CGC 3.4)	Medi 2020	ML
9	Diwrnod datblygu staff 2020 ar ymwybyddiaeth a hyfforddiant EDI, gan ganolbwyntio'n benodol ar hil a hiliaeth (Cam Gweithredu CGC 4.2)	Medi 2020	HG
10	Sefydlu pythefnos ymsefydlu diwygiedig ar gyfer pob myfyriwr newydd, yn canolbwyntio ar agweddau perthnasol yr agenda EDI gan gynnwys (Cam Gweithredu CGC 3.3) – gweithgareddau wythnos 2 wedi'u dyfeisio gan Theatr Tonic (tîm o 4 gan gynnwys 2 berson o leiafrifoedd ethnig), wedi'u hwyluso gyda grŵp ychwanegol o gyn-fyfyrwyr CBCDC ac 1 myfyriwr presennol (gan gynnwys sawl aelod o BLM)	Medi 2020	HG/BW

11	Creu gweithgor strategol y Coleg ar staffio a'r cynllun pobl, gan sicrhau y rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethau EDI (Cam Gweithredu CGC 4.1)	Medi 2020	MD
12	Sefydlu pwyllgor i fonitro cymorth Bwrsariaeth ac Ysgoloriaethau	Medi 2020	MD
	CAMAU A GODWYD (ALINIAD Â'R CYNLLUN GWEITHREDU CYDRADDOLDEB)	DYDDIAD TERFYN	ATEBOLRWYDD
	CEFNOGI AC YMGYSYLLTU Â MYFYRWYR, CYNULLEIDFAOEDD A CHYMUNEDAU		
1	Cyhoeddi cynllun gweithredu BLM, gan gyfeirio at y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'i gynllun gweithredu	Hydref 2020	BW
2	Sicrhau bod y strategaeth a'r cynllun gweithredu EDI yn ffocws pwysig i ddiwrnod cwrdd i ffwrdd 2020 Bwrdd CBCDC	Hydref 2020	HG
3	Adrodd yn ôl i Fwrdd y Cwrs Actio a Bwrdd y Cyfarwyddwyr ar y camau a gymerwyd mewn ymateb i'r digwyddiadau penodol a grybwyllwyd mewn tystlythyrau myfyrwyr a'u cyflwyno i'r Byrddau hyn	Tachwedd 2020	HG
4	Creu grŵp cyngori ar faterion hil ar gyfer Pwyllgor EDI y Coleg, gan ddwyn ynghyd safbwyntiau myfyrwyr, staff, cyn-fyfyrwyr, y diwydiant ac arbenigedd cymunedol	Rhagfyr 2020	HG
5	Creu fforwm cyswllt â'r diwydiant a chefnogaeth myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig, ym meysydd Cerddoriaeth a Drama, gyda mewnbwn gan Gymrodyr CBCDC allweddol gan gynnwys yr actor Rakie Ayola	Rhagfyr 2020	JM a TRE
6	Nodi'r hyfforddiant pellach sydd ei angen ar gyfer pob myfyriwr ar draws grwpiau blwyddyn, yn dilyn y cyfnod ymsefydlu diwygiedig ar gyfer myfyrwyr	Chwefror 2021	HG/SC/TRE
	ARFER CREADIGOL		
7	Cynnwys rhagor o staff o leiafrifoedd ethnig ym meysydd Cerddoriaeth a Drama	Hydref 2020	SC/TRE
8	Sefydlu grŵp Cynllunio Artistig gyda'r nod o gynnig cyfres integredig o addewidion ar draws nodweddion gwarchoddedig ar gyfer rhaglennu'r gwaith a arweinir gan y Coleg ac artistiaid ar ymweliad ar draws maes y celfyddydau perfformio (Cam Gweithredu CGC 2.1)	Hydref 2020	KSD/PK
9	Cynnwys amcanion EDI ym mhob un o ddatblygiadau'r cwricwlwm, gan gynnwys prosesau dilysu(aillddilysu) i baratoi ar gyfer y cylch dilysu yn 2020/21 (Cam Gweithredu CGC 3.2)	Hydref 2020	IH/Strategaeth Academaidd
10	Gosod targedau blaengar yn gyffredinol ar gyfer cynyddu amrywiaeth ein cymuned myfyrwyr ar draws nodweddion gwarchoddedig, gyda chynlluniau allgymorth ac ymgysylltu â mynychwyr ar gyfer pob rhaglen gradd (Cam Gweithredu CGC 3.1)	Rhagfyr 2020	TRE/SC
11	Sefydlu targedau clir ar ddatblygu cynulleidfaoedd (Cam Gweithredu CGC 8)	Chwefror 2021	PK/KS

	DATBLYGU STRWYTHURAU A HYFFORDDIANT		
12	Sefydlu goruchwyliaeth glir ar gyfer y strategaeth a chynllun gweithredu EDI ac adroddiadau blynyddol; ac yn yr un modd ar gyfer y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth: y berthynas â'r pwyllgor EDI, pwyllgorau eraill y Coleg, Uwch Dîm Rheoli, y Bwrdd a Phrifysgol De Cymru, a llunio cynllun i wneud hyn yn dryloyw ac yn 'eiddo' i'r Coleg i gyd (Cam Gweithredu CGC 1.2)	Tachwedd 2020	HG/BW/MD
13	Croesgyfeirio amcanion EDI drwy'r Strategaeth Academaidd yn gyfan (Cam Gweithredu CGC 1.2)	Chwefror 2021	Bwrdd Academaidd
14	Sefydlu'r gwaith casglu a dadansoddi data sydd ei angen i fonitro/gwerthuso'n effeithiol y cynllun gweithredu a nodi'r holl oblygiadau o ran adnoddau (Cam Gweithredu CGC 8.1)	Chwefror 2021	MD
15	Treialu elfennau hyfforddiant staff a datblygiad proffesiynol (ar-lein ac wyneb yn wyneb). Mapio'r cynllun hyfforddiant staff ar gyfer gweddill y flwyddyn a 2021/22	Medi 2020	MD
	CAMAU A GODWYD (ALINIAD Â'R CYNLLUN GWEITHREDU CYDRADDOLDEB)	DYDDIAD TERFYN	ATEBOLRWYDD
	CEFNOGI AC YMGYSYLLTU Â MYFYRWYR, CYNULLEIDFAOEDD A CHYMUNEDAU		
1	Datblygu strategaeth i sefydlu ysgoloriaethau talent wedi'u neilltuo ar gyfer myfyrwyr sydd â nodweddion gwarchoddedig (Cam Gweithredu CGC 3.1). Cyhoeddi ein bwriad i nodi ysgoloriaethau penodol ar gyfer myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig.	Medi 2021	SC/TRE KP LH
	ARFER CREADIGOL		
2	Croesawu dull Coleg cyfan ar gyfer adolygu pob rhaglen radd yn barhaus mewn perthynas â gwrth-hiliaeth, gan sicrhau yr ymgynghorir â chyn-fyfyrwyr perthnasol a chynrychiolwyr y diwydiant, yn ogystal â'r rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig (Cam Gweithredu CGC 3.2)	Medi 2021	JM/SC/TRE/KP
	DATBLYGU STRWYTHURAU A HYFFORDDIANT		
3	Cyflwyno hyfforddiant a datblygiad gwrth-hiliaeth ar gyfer pob myfyriwr, gan gynnwys elfennau arbenigol yn ôl disgyblaeth fel y bo'n briodol. (Cam Gweithredu CGC 3.2)	Medi 2021	AJ/CLTEC
4	Gosod targedau blaengar ar gyfer cynyddu amrywiaeth yn y gymuned staff, a lansio prosesau recriwtio staff diwygiedig a chymorth ar gyfer dilyniant staff (Cam Gweithredu CGC 4.2)	Medi 2021	MD
5	Bod â rhaglen hyfforddiant staff gynhwysfawr ar waith (Cam Gweithredu CGC 4.4)	Medi 2021	MD